# COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** 14 Mai 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol
Rhodri Glyn Thomas, Plaid Cymru

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Cynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Busnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr/Ysgrifennydd Preifat i'r Dirprwy Lywydd

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Daeth ymddiheuriad am absenoldeb i law oddi wrth Jocelyn Davies. Croesawodd y Dirprwy Lywydd Rhodri Glyn Thomas, a oedd yn ei chynrychioli yn unol â Rheol Sefydlog 13.3. Daeth ymddiheuriad am absenoldeb i law hefyd oddi wrth Marie Knox.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd diwethaf

### (i) BC140-02 (Terfynol) dydd Mawrth 30 Ebrill 2002

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu, yn barod i'w cyhoeddi.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

### (ii) BC147-02 (Drafft) dydd Mawrth 7 Mai 2002

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Awgrymwyd rhai mân newidiadau a fyddai'n cael eu hymgorffori yn y drafft terfynol, a fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod nesaf.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion sy'n codi (BC147-02 dydd Mawrth 7 Mai 2002)

## 4. Is-ddeddfwriaeth

### (a) Gorchmynion i'w hystyried

- Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC149-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Y Weithdrefn Garlam*
- Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002 (BC150-02) *Gweithdrefn a Argymhellir: Y Weithdrefn Garlam*
- Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2002 (BC151-02) *Gweithdrefn a argymhellir: Y Weithdrefn Garlam*
- The Horticultural Development Council (Amendment) Order 2002 (BC159-02) *Rheol Sefydlog 23, Adran 3*

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes bapurau BC149-02 i BC151-02 a BC159-02, a oedd yn darparu cyngor ar sut i drin y gorchmynion hyn, a chytunodd ar y gweithdrefnau a argymhellwyd.
**Gan hynny, dyfarnodd y Llywydd na fyddai'n rhaid cyfeirio'r Gorchmynion hyn at bwyllgor pwnc.**

4.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylai Memorandwm Esboniadol yn ategu gorchymyn hysbsu'r Pwyllgor Busnes os oedd pwyllgor pwnc wedi cael gwybod am orchymyn drafft arfaethedig, ond wedi penderfynu peidio â chraffu arno.
**Camau i'w cymryd: Trefnydd y Cynulliad i adrodd yn ôl.**

<u>BC159-02</u>

4.3 Nododd yr Aelodau mai gorchymyn cychwyn oedd hwn, ac y byddai gorchmynion manwl sy'n deillio ohono yn dod gerbron y Cynulliad cyn bo hir. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod y papur hwn wedi dod i law yn hwyr oddi wrth yr Ysgrifenyddiaeth, ac atgoffodd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet am y dyddiadau terfynol ar gyfer cyflwyno papurau. Nododd hefyd nad oedd y dyddiad cychwyn arfaethedig yn rhoi llawer o hyblygrwydd i'r Cynulliad benderfynu ar sut i ymdrin â'r gorchymyn. Gofynnodd i Drefnydd y Cynulliad adrodd yn ôl ar yr amserlen yr oedd y gorchymyn wedi'i ddilyn.
**Camau i'w cymryd: Trefnydd y Cynulliad i adrodd yn ôl.**

**<u>(b) Gorchmynion a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol</u>**

<u>BC152-02 a BC153-02</u>

4.4 Nododd y Pwyllgor y llythyron oddi wrth y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad at yr Aelodau ynghylch defnyddio'r weithdrefn Weithredol ar gyfer diwygiad i'r Plant Health (Forestry) (Great Britain) Order 1993, a diwygiad i'r rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000: Cyfarfodydd Swyddog Gweithredol Awdurdod Lleol.

## 5. <u>Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau</u>

<u>BC154-02</u>

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr Holiadur ar newidiadau arfaethedig i amserau'r Cyfarfod Llawn.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylid dileu'r opsiynau ar gyfer Cyfarfodydd Llawn ar ddyddiau Mawrth, oherwydd bod y Cynulliad wedi cytuno ar argymhelliad yr Arolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad i ymestyn Cyfarfodydd Llawn ar ddydd Mawrth tan 6pm (gyda'r hyblygrwydd i barhau tan 7pm). Cytunwyd y dylid gosod cynnig i newid y Rheolau Sefydlog er mwyn gwireddu'r argymhelliad hwn gerbron y Cyfarfod Llawn. Cytunodd y Pwyllgor ar weddill yr holiadur, gyda rhai mân welliannau. Cyfarwyddodd y Dirprwy Lywydd yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r holiadur diwygiedig i Aelodau'r Cynulliad.
**Camau i'w cymryd:** Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r holiadur a pharatoi cynnig i newid y Rheolau Sefydlog.

## 6. Pwyllgorau

## 7. Busnes arfaethedig

(i) Busnes yr wythnos hon

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC155-02, a oedd yn rhoi manylion busnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'r ddadl ar Ddatblygu Cynaliadwy, a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth 14 Mai yn cael ei gohirio tan 21 Mai oherwydd pwysau busnes. Dywedodd hefyd y byddai'r datganiad ar Broffesiynau Iechyd Cymru, a drefnwyd ar gyfer 16 Mai yn cael ei ohirio tan 23 Mai. Nid oedd unrhyw newidiadau eraill yn cael eu cynnig.

(ii) Y Datganiad Busnes Drafft

7.3 Nododd y Pwyllgor y datganiad yr oedd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad yn ei gynnig ynghylch trefnu busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau sy'n dechrau dydd Mawrth 21 Mai, dydd Mawrth 28 Mai, a dydd Mawrth 11 Mehefin.

7.4 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad nad oedd unrhyw newidiadau eraill i'r busnes a amlinellwyd yn y Datganiad Busnes Drafft.

7.5 Dywedodd Rhodri Glyn Thomas fod Janet Ryder wedi gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Ebrill drefnu dadl ar y Papur Gwyn ar ad-drefnu'r heddlu. Gofynnodd a oedd penderfyniad wedi'i wneud ar y mater. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad fod y llywodraeth yn dal i ystyried y cais.

7.6 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'r Frenhines yn ymweld â Bangor ar 11 Mehefin, ac adeilad y Cynulliad ar 13 Mehefin. Mynegodd Rhodri Glyn Thomas bryder y byddai'r ymweliadau hyn yn effeithio ar bron i wythnos lawn o Gyfarfodydd Llawn. Dywedodd y Dirprwy Lywydd na fyddai hyn yn effeithio ar fusnes dydd Mawrth, ac y byddai'r Cyfarfod Llawn yn cychwyn am 1.15pm ar ddydd Iau. Gofynnodd Paul Silk i'r Rheolwyr Busnes ddarparu rhifau

terfynol yr Aelodau a fyddai'n teithio o Gaerdydd i Fangor ar gyfer cyfarfod yr wythnos ganlynol.

BC157-02

7.7 Nododd y Pwyllgor bapur oddi wrth Bwyllgor y Ty ynghylch diogelwch swyddfeydd yr etholaethau. Gofynnodd Rhodri Glyn Thomas i'r Dirprwy Lywydd pa ddarpariaethau oedd yn cael eu gwneud ar gyfer diogelwch personol yr Aelodau yn ystod cymorthfeydd. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod hynny y tu allan i gwmpas y papur hwn, ond y byddai'n gofyn i bapur ar y mater neilltuol hwn gael ei baratoi a'i gyflwyno i Bwyllgor y Ty.
**Camau i'w cymryd:** Yr Ysgrifenyddiaeth i ysgrifennu at Wayne Cowley (y Swyddfa Ffioedd) yn gofyn am bapur ar gyfer Pwyllgor y Ty.

## 8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn

8.1 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa Aelodau'r Cynulliad y dylid cadw cwestiynau atodol ac ymatebion gan y Gweinidogion mor fyr a chryno â phosibl.

## 9. Diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y papur ar newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sy'n deillio o adroddiad yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad. Nodwyd bod yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad wedi argymell bod angen crisialu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Dirprwy Weinidogion.
**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i baratoi adroddiad y Pwyllgor Busnes.**

## 10. Dyfarniadau'r Llywydd

## 11. Unrhyw fater arall

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**